ROYAL WELSH COLLEGE
OF MUSIC & DRAMA
COLEG BRENHINOL
CERDD A DRAMA CYMRU

Pavel Kolesnikov

Steinway International Piano Series 2021
Cyfres Piano Rhyngwladol Steinway 2021

Sunday 14 March | Sul 14 Mawrth
11am

Programme | Rhaglen
Schumann Kinderszenen Op.15
Beethoven Piano Sonata No.30 in E major Op.109
Interval
Bach Goldberg Variations, BWV 988

NEUADD
DORA STOUTZKER
HALL

Biography

"**Pavel Kolesnikov** is an engrossing musician. He is perhaps the most introspective and meditative pianist that I know of, and with his deep and delicate sensitivity to sound, he is able to bring out a sophisticated gradation of colours particularly in the quieter ranges of the instrument. He is a poet of the piano, rather than say, a novelist or a storyteller." Bachtrack, October 2018.

Pavel Kolesnikov became Prize Laureate of the Honens International Piano Competition in 2012, and recital and festival appearances resulting from the Honens Prize include Zankel Hall at Carnegie Hall, Berlin's Konzerthaus, the Louvre (Paris), Vancouver Recital Society, La Jolla Music Society, Spoleto Festival USA, Canada's Ottawa Chamber Fest and Banff Summer Festival.

Pavel has performed with the Toronto Symphony and Calgary Philharmonic, the Malta Philharmonic Orchestra, the Russian National Philharmonic, London Philharmonic, Philharmonia Orchestra, Orquestra Sinfônica Brasileira, the City of Birmingham Symphony Orchestra, the Hallé, the BBC Symphony, the BBC Philharmonic, the BBC Scottish, and the BBC National Orchestra of Wales. He has undertaken UK and European tours with the Tchaikovsky Symphony Orchestra, the Czech National Symphony and Flanders Symphony Orchestras. Pavel made his BBC Proms debut performing Tchaikovsky's Piano Concerto no. 2 with the National Youth Orchestra of Scotland conducted by Ilan Volkov. He also joined the BBC Proms at the inaugural event in Australia.

He has given recitals at the Queen Elizabeth Hall, London, as part of the international Piano Series, and at Kings Place, London. He enjoys collaborating with other musicians, such as the Brahms Violin and Viola Sonatas with Lawrence Power, again at the Queen Elizabeth Hall in London. Pavel has also given recitals in South Korea, Japan, Spain, and Germany, and at the La Roque d'Antheron festival, the Musiq3 Festival in

Brussels, and the Aldeburgh Festival. He returns regularly to the Wigmore Hall in London. A major project for Pavel is currently ongoing with the Rosas Dance Company, performing the Bach Goldberg Variations with the company's founder Anne Teresa De Keersmaeker. The project has so far been performed in Vienna, Brussels, Montpellier, Brugges, and Seville.

London-based Pavel Kolesnikov was born in Siberia into a family of scientists. He studied both the piano and violin for ten years, before concentrating solely on the piano. He has studied at Moscow State Conservatory with Sergey Dorensky, at London's Royal College of Music with Norma Fisher and at Brussels' Queen Elisabeth Music Chapel with Maria João Pires thanks to the generous support of Mr Christopher D Budden, the RCM Scholarship Foundation and Hattori Foundation. Pavel is the recipient of the Milstein Medal and is the RCM Benjamin Britten Piano Fellow and was a member of BBC Radio 3's New Generation Artists from 2014 to 2016. He received the Young Talent (piano) Award for 2019 from the UK Critics' Circle.

<u>Bywgraffiadau</u>

"**Mae Pavel Kolesnikov** yn gerddor cyfareddol. Efallai mai ef yw'r pianydd mwyaf mewnsyllgar a meddylgar y gwn i amdano, a gyda'i sensitifrwydd dwfn a thynner i sain, gall gyfleu graddiad soffistigedig o liwiau, yn arbennig yng nghyfyngau tawelach yr offeryn. Mae'n fardd wrth y piano, yn hytrach na, dyweder, nofelydd neu adroddwr storïau." Bachtrack, Hydref 2018.

Enillodd Pavel Kolesnikov Wobr Lawryfog Cystadleuaeth Piano Rhyngwladol Honens yn 2012, ac mae ei ddatganiadau a'i ymddangosiadau mewn gwyliau a ddeilliodd o'r Wobr honno yn cynnwys Neuadd Zankel yn Neuadd Carnegie, Konzerthaus Berlin, y Louvre (Paris), Cymdeithas Ddatganiadau Vancouver, Cymdeithas Gerddoriaeth La Jolla, Gŵyl Spoleto UDA, Gŵyl Siambr Ottawa a Gŵyl Haf Banff yng Nghanada.

Mae Pavel wedi perfformio gyda Cherddorfa Symffoni Toronto a Cherddorfa Ffilharmonig Calgary, Cerddorfa Ffilharmonig Malta, Cerddorfa Genedlaethol Rwsia, Cerddorfa Ffilharmonig Llundain, Cerddorfa'r Ffilharmonia, Orquestra Sinfônica Brasileira, Cerddorfa Symffoni Dinas Birmingham, Cerddorfa'r Hallé, Cerddorfa Symffoni y BBC, Cerddorfa Ffilharmonig y BBC, Cerddorfa BBC Scottish, Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC. Mae wedi teithio'r DU ac Ewrop gyda Cherddorfa Symffoni Tchaikovsky, Cerddorfa Symffoni Genedlaethol Gweriniaeth Tsiec a Cherddorfa Symffoni Fflandrys. Gwnaeth Pavel ei ymddangosiad cyntaf ym Mhroms y BBC pan berfformiodd Goncerto Piano rhif 2 Tchaikovsky gyda Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid yr Alban o dan arweiniad Ilan Volkov. Ymunodd â Phroms y BBC hefyd yn y digwyddiad cyntaf yn Awstralia.

Mae wedi rhoi datganiadau yn Neuadd y Frenhines Elizabeth, Llundain, fel rhan o'r Gyfres Piano Rhyngwladol, ac yn Kings Place, Llundain. Mae'n mwynhau cydweithio â cherddorion eraill, megis Sonatâu Feiolin a Fiola Brahms gyda Lawrence Power, unwaith eto yn Neuadd y Frenhines Elizabeth yn Llundain. Mae Pavel hefyd wedi rhoi datganiadau yn Ne Corea, Japan, Sbaen a'r Almaen, ac yng Ngŵyl La Roque d'Antheron, Gŵyl Musiq3 ym Mrwsel, a Gŵyl Aldeburgh. Bydd yn dychwelyd yn rheolaidd i Neuadd Wigmore yn Llundain. Mae gan Pavel brosiect mawr ar waith ar hyn o bryd gyda Chwmni Dawns Rosas, yn perfformio Amrywiadau Goldberg Bach gyda sylfaenydd y cwmni Anne Teresa De Keersmaeker. Hyd yma mae'r prosiect wedi'i berfformio yn Fienna, Brwsel, Montpellier, Brugges, a Seville.

Ganwyd Pavel Kolesnikov yn Siberia i deulu o wyddonwyr ac erbyn hyn mae'n byw yn Llundain. Astudiodd y piano a'r feiolin am ddeng mlynedd cyn canolbwyntio'n llwyr ar y piano. Mae wedi astudio yn y Moscow State Conservatory gyda Sergey Dorensky, yn y Coleg Cerdd Brenhinol yn Llundain gyda Norma Fisher ac yng Nghapel Cerddoriaeth y Frenhines Elisabeth ym Mrwsel gyda Maria João Pires diolch i gefnogaeth hael Mr Christopher D Budden, Sefydliad Ysgoloriaethau RCM

a Sefydliad Hattori. Mae Pavel wedi derbyn Medal Milstein ac mae'n Gymrawd Piano Benjamin Britten RCM ac roedd yn Artist y Genhedlaeth Newydd BBC Radio 3 rhwng 2014 a 2016. Yn 2019 derbyniodd Wobr Talent Ifanc (piano) gan UK Critics' Circle.

Programme Notes

Robert Schumann (1810-1856) Kinderszenen Op.15 (Scenes from Childhood)

1. Von fremden Ländern und Menschen (Foreign lands and peoples)
2. Kuriose Geschichte (A curious story)
3. Hasche-Mann (Catch me if you can)
4. Bittendes Kind (Pleading Child)
5. Glückes genug (Perfect happiness)
6. Wichtige Begebenheit (An important event)
7. Träumerei (Reverie)
8. Am Kamin (At the Fireside)
9. Ritter vom Steckenpferd (Knight of the Hobbyhorse)
10. Fast zu ernst (Almost Too Serious)
11. Fürchtenmachen (Frightening)
12. Kind im Einschlummern (Child Falling Asleep)
13. Der Dichter spricht (The Poet Speaks)

Given the emotional frustrations Robert Schumann must have experienced throughout his protracted courtship with Clara Wieck in the 1830s and a three-year court battle to secure official approval for their marriage, one might wonder at the composer's remarkable productivity during this period. Yet their romantic attachment was a powerful stimulus for the composer who found expressive outlet in numerous piano collections, of which the 'wonderful, crazy, solemn stuff' of *Kinderszenen* is amongst his most popular. These short genre pieces, in effect fleeting evocations of a child's world, were triggered by a remark of Clara's that Schumann sometimes seemed to her like a child. They took root following her departure for a seven-month concert tour begun in December

1837. Soon after their completion the next year he announced, 'I knocked off about thirty quaint little things, from which I've selected twelve'.

In the end thirteen were published and their titles added as an afterthought, not intended as anything more than a guide for interpretation. They open with the initial arching phrase of 'Foreign lands and peoples', which returns in various guises throughout the set. The dotted rhythms of this first 'portrait' are developed further in the jaunty 'A curious story', while scurrying figures enliven 'Catch me if you can'. The work's opening figure returns for 'Pleading child' and its enigmatic close is answered by an exuberant response in 'Perfect Happiness'. Left hand octaves and stately chords assert themselves for 'An important event' and provide sharp contrast with the poetic dreams of 'Reverie'. If a cosy domesticity resides in 'At the Fireside', a propulsive manner evokes the noble deeds of 'The Knight of the Hobby-Horse' and anticipates the gentle syncopations of 'Almost too serious'. Its fragility is abandoned for the 'bipolar' contrasts of 'Frightening', while a subdued rocking motion underpins 'Child falling asleep'. The intimacy of 'The Poet Speaks' offers Schumann (the 'poet') the opportunity to reflect on his childhood experience from an adult perspective, prompting Clara to observe 'So simple, so heartwarming, so very you'.

Ludwig van Beethoven (1770-1827) Piano Sonata No.30 in E major, Op.109

1. Vivace, ma non troppo - Adagio espressivo
2. Prestissimo
3. Tema (Andante molto cantabile ed espressivo)

When Beethoven began work on this Sonata in 1820 his deafness was absolute, his sense of isolation irretrievable and the fulfilment of personal relationships impossible. His ambitious *Hammerklavier* Sonata from the previous year had prompted

charges of eccentricity and the composer Zelter dismissed him as 'a lunatic'. Having expanded the form in a manner never previously attempted Beethoven now reshaped his last piano sonatas with a new conciseness and flexibility. This is apparent in the more readily accessible three-movement Sonata in E major, a work that owes nothing to convention and one of his most richly imaginative creations. Its new structural thinking - a closing set of variations lasting over twice the length of the first two movements together - is combined with an unsurpassed depth of feeling that reaches a spiritual peak in the ethereal theme and variations.

Its two outer movements embrace a newly found voice which in the first has an illusive and improvisatory quality combining formal techniques with an expressive lyricism of unsurpassed beauty and spontaneity. Fast and slow sections are dovetailed in the first movement and almost before we have identified the opening theme, hidden in a series of broken figures, Beethoven breaks into a cadenza-like *Adagio*, its contrasting ideas existing in a truly symbiotic partnership.

A nervous energy propels the second movement (*Prestissimo*), now in E minor, with a brief mysterious passage at the heart of the storm it raises. With the finale we reach the emotional core of the work, a set of variations on a theme of celestial simplicity. Marked *Gesangvoll mit innigster Empfindung* (song-like with innermost feeling), its first variation suggests a Nocturne, whilst the second is a gentle toccata. The influence of Bach permeates the next three variations: the third in the style of an Invention, the fourth suffused with romantic expressiveness and the fifth permeated by closely imitative writing. Trills and an increasing dynamism characterise the sixth variation before the theme makes one last appearance in a mood of rapt simplicity, perfectly summarised by Martin Cooper as 'an atmosphere so rarified that not many pianists can breathe it ... the impression of a music that hovers at a great height above the world of everyday experience'.

J.S. Bach (1685-1750) Goldberg Variations, BWV 988 (1741)

Within a few years of taking up his appointment as Cantor at St Thomas's School in Leipzig, Bach became increasingly disillusioned. By 1730 he complained 'I find the post is by no means so lucrative as it was described to me; I have failed to obtain many of the fees pertaining to the office; the place is expensive, and the authorities show little interest in music'. Grievances aside, he remained there for the rest of his career, his music becoming increasingly esoteric, as he turned to genres that had mostly gone out of fashion or were intellectually far above the heads of his contemporaries.

Amongst these works, including the *Musical Offering* and the *Art of Fugue*, belong the *Goldberg Variations* prompted by Count Keyserlingk, the Russian ambassador to the court of Dresden. This cultivated nobleman supposedly commissioned the Variations for his protégé Johann Gottlieb Goldberg, a brilliant musician known to play to the Count from an adjoining chamber during the night to relieve his insomnia. The Count requested keyboard pieces 'of a delicate and lively character' that Goldberg could play to him during his sleepless nights.

Despite Bach's attitude to variation form as 'a thankless task due to the monotonous basic harmony', he produced a work of remarkable resourcefulness. From within its formal 'Russian doll' design and rigid harmonic template thirty variations unfold after the opening sarabande. This dignified theme, or aria as Bach labels it, is thirty-two bars in length and divided into two sixteen bar portions. Following the initial theme, the collection is divided into ten sets of variations organised into groups of three. Each group comprises a dance or character piece such as a gigue, fugue and overture, a brilliant toccata-like movement and a canon which on every occurrence rises a tone.

The thirtieth variation, instead of the expected canon, is a Quodlibet – a form in which different melodies can be sung or

played simultaneously and a favourite musical game in the Bach household. This final variant is an artful mélange of popular tunes constructed from the first phrase of 'Cabbages and turnips have driven me away'. This joke temporarily offsets the high-minded seriousness before returning to the simplicity of the concluding Aria.

The pianist Jeremy Denk believes the *Goldberg Variations* are 'uniquely treacherous' because of many impossible hand crossings when played on the piano. Yet he believes the Variations are instructive for being 'a lesson in many things, but primarily in wonder: the way that the tragic variations fuse seamlessly into the breathlessly comic, the way that simple scales become energy, joy, enthusiasm, the celebration of the most fundamental elements of music'.

David Truslove, 2021

<u>Nodiadau Rhaglen</u>

Robert Schumann (1810-1856) Kinderszenen Op.15
(Golygfeydd o Blentyndod)

1 .Von fremden Ländern und Menschen (Tiroedd a Phobl Ddieithr)
2. Kuriose Geschichte (Stori Chwilfrydig)
3. Hasche-Mann (Dal Fi os Galli)
4. Bittendes Kind (Plentyn Ymbilgar)
5. Glückes genug (Hapusrwydd Perffaith)
6. Wichtige Begebenheit (Digwyddiad Pwysig)
7. Träumerei (Synfyfyrdod)
8. Am Kamin (Ger y Tân)
9. Ritter vom Steckenpferd (Marchog y Ceffyl Pren)
10. Fast zu ernst (Bron yn rhy Ddifrifol)
11. Fürchtenmachen (Brawychus)

12. Kind im Einschlummern (Plentyn yn Syrthio i Gysgu)
13. Der Dichter spricht (Llais y Bardd)

O gofio'r rhwystredigaethau emosiynol y byddai Robert Schumann yn sicr wedi'u profi drwy gydol ei garwriaeth hir â Clara Wieck yn y 1830au, a brwydr tair blynedd mewn llys i sicrhau cymeradwyaeth swyddogol i'w priodas, gallai rhywun yn hawdd synnu ar gynhyrchiant rhyfeddol y cyfansoddwr yn ystod y cyfnod hwn. Eto, roedd eu perthynas ramantus yn ysgogiad cryf ar gyfer y cyfansoddwr a ganfu allanfa llawn mynegiant mewn nifer o gasgliadau ar gyfer y piano, y mae'r *Kinderszenen* 'rhyfeddol, gorffwyll a difrifol' ymhlith y mwyaf poblogaidd ohonynt. Cafodd y darnau genre byr hyn, sydd mewn gwirionedd yn atgofion plentyndod yn gwibio heibio, eu sbarduno gan sylw a wnaeth Clara fod Schumann weithiau'n ymddangos fel plentyn bach iddi hi. Dechreuodd y gwaith egino ar ôl iddi adael am daith cyngherddau saith mis o hyd ym mis Rhagfyr 1837. Yn fuan wedi'u cwblhau y flwyddyn ganlynol cyhoeddodd, 'Creais tua deg ar hugain o ddarnau bach cywrain, a dewisais ddeuddeg o'u pith'.

Yn y diwedd cyhoeddwyd tri ar ddeg ohonynt ac ychwanegwyd teitlau iddynt fel ôl-ystyriaeth, gyda'r bwriad o fod yn ddim mwy na chanllaw ar gyfer eu dehongli. Maent yn agor gyda'r frawddeg gychwynnol bontiog 'Tiroedd a Phobl Ddieithr', sy'n dychwelyd ar ddiwyg gwahanol drwy gydol y casgliad. Datblygir rhythmau dotiog y 'portread' ymhellach yn y 'Stori Chwilfrydig' bywiog, tra bod ffigurau brysiog yn bywiocau 'Dal fi os Galli'. Mae ffigur agoriadol y darn yn dychwelyd ar gyfer 'Plentyn Ymbilgar' ac atebir ei ddiweddeb enigmatig gan ymateb afieithus yn 'Hapusrwydd Perffaith'. Daw wythfedau yn y llaw chwith a chordiau mawreddog i'r amlwg ar gyfer 'Digwyddiad Pwysig' ac mae'n rhoi cyferbyniad cryf i freuddwydion mydryddol 'Synfyfyrdod'. Os oes cynhesrwydd cartrefol i'w deimlo yn 'Ger y Tân', mae dull gyriannol yn cyfleu gwerthoedd da yn 'Marchog y Ceffyl Pren' ac mae'n rhagweld trawsaceniad tynner 'Bron yn rhy Ddifrifol'. Cefnir ar ei freuder ar gyfer cyferbyniadau 'deubegwn' yn 'Brawychus', tra bod symudiad siglog tawel yn sail i 'Plentyn yn Syrthio i

Gysgu'. Mae agosatrwydd 'Llais y Bardd' yn rhoi'r cyfle i Schumann (y 'bardd') fyfyrio ar brofiad ei blentyndod trwy lygaid oedolyn, a hynny symbylodd Clara i ddweud 'Dyma syml, dyma dwymgalon, dyma ti yn union'.

Ludwig van Beethoven (1770-1827) Sonata Piano Rhif 30 yn E fwyaf, Op.109

1. Vivace, ma non troppo - Adagio espressivo
2. Prestissimo
3. Tema (Andante molto cantabile ed espressivo)

Pan ddechreuodd Beethoven ar y Sonata hon ym 1820 roedd yn hollol fyddar, ei deimlad o unigedd yn ddi-droi'n-ôl a chanfu hi'n amhosibl cynnal perthynas bersonol. Roedd ei Sonata *Hammerklavier* uchelgeisiol o'r flwyddyn flaenorol wedi ysgogi honiadau o ecsentrigrwydd ac fe'i diystyrwyd ef y cyfansoddwr Zelter yn 'wallgofddyn. Ac yntau wedi ehangu'r ffurf mewn modd na geisiwyd ei wneud yn flaenorol, fe wnaeth Beethoven nawr ail-siapio ei sonatâu piano diwethaf gyda byrder a hyblygrwydd newydd. Mae hyn i'w weld yn glir yn y Sonata yn E fwyaf gyda'i thri rhan mwy hygyrch, gwaith sy'n wfftio confensiwn ac yn un o'i greadigaethau mwyaf cyfoethog o ran ei dychymyg. Cyfunir ei feddwl strwythurol newydd - casgliad clo o amrywiadau sy'n para dros ddwywaith hyd y ddau symudiad cyntaf gyda'i gilydd - gyda dwyster teimlad dihafal sy'n cyrraedd uchafbwynt ysbrydol yn y thema a'r amrywiadau nefolaidd.

Mae dau symudiad allanol y sonata yn cofleidio llais a ganfu o'r newydd lle, yn y cyntaf, ceir ansawdd rhithiol a byrfyfyr sy'n cyfuno technegau ffurfiol gyda thelynegiaeth llawn mynegiant o harddwch a digymhellrwydd diguro. Mae adrannau cyflym ac araf yn gwau i'w gilydd yn y symudiad cyntaf a chyn ein bod bron wedi canfod y thema agoriadol, sydd ynghudd mewn cyfres o ffigurau toredig, mae Beethoven yn torri i mewn i *Adagio* tebyg i gadenza, ei syniadau cyferbyniol yn bodoli mewn partneriaeth wirioneddol symbiotaidd.

Mae egni nerfus yn gyrru'r ail symudiad (*Prestissimo*), sydd erbyn hyn yn E leiaf, gydag adran ddirgel fer wrth galon y storm wrth iddi godi. Gyda'r finale rydym yn cyrraedd craidd emosiynol y gwaith, casgliad o amrywiadau ar thema o symlrwydd nefolaidd. Wedi'i farcio'n *Gesangvoll mit innigster Empfindung* (tebyg i gân gyda'r teimlad dyfnaf) mae ei amrywiad cyntaf yn awgrymu Hwyrgan, tra bod yr ail yn docata ysgafn. Mae dylanwad Bach yn treiddio'r tri amrywiad nesaf: y trydydd mewn arddull Dyfeisiad, y pedwerydd yn gyforiog o fynegiant rhamantaidd a'r pumed yn llawn o ysgrifennu dynwaredol. Mae triliau a deinameg cynyddol yn nodweddu'r chweched amrywiad cyn bod y thema'n ymddangos eto am y tro olaf mewn symlrwydd synfyfyriol, sydd wedi'i grynhoi'n berffaith gan Martin Cooper fel 'awyrgylch mor brin fel na all llawer o bianyddion ei anadlu ... argraff o gerddoriaeth sy'n hofran yn uchel uwchlaw byd y profiad pob dydd'.

J.S. Bach (1685-1750) Amrywiadau Goldberg, BWV 988 (1741)

O fewn ychydig flynyddoedd i ddechrau ar ei swydd fel Arweinydd y Gân yn Ysgol St Thomas yn Leipzig, daeth Bach yn fwy digalon. Erbyn 1730 cwynodd 'Dydy'r swydd yn sicr ddim mor enillfawr ag y'i disgrifiwyd i mi; rydw i wedi methu â chael llawer o'r ffioedd sy'n gysylltiedig â hi; mae'n lle drud, ac nid oes gan yr awdurdodau fawr o ddiddordeb mewn cerddoriaeth'. Er gwaethaf y cwyno, arhosodd yno am weddill ei yrfa, ei gerddoriaeth yn dod yn gynyddol esoterig wrth iddo droi at genres a oedd ar y cyfan wedi mynd allan o ffasiwn neu a oedd, o ran eu deallusrwydd, ymhell uwchlaw ei gyfoedion.

Mae'r gweithiau hyn, sy'n cynnwys *Musical Offering* ac *Art of Fugue*, yn perthyn i *Amrywiadau Goldberg* a ysgogwyd gan yr Iarll Keyserlingk, llysgennar Rwsia o lys Dresden. Yn ôl y sôn fe wnaeth yr uchelwr diwylliedig hwn gomisiynu'r Amrywiadau ar gyfer ei protégé Johann Gottlieb Goldberg, cerddor gwych y gwyddom ei fod yn chwarae i'r Iarll o ystafell gy-

fagos yn ystod y nos er mwyn lliniaru ei anhunedd. Gofynnodd yr Iarll am ddarnau 'o gymeriad cywrain a bywiog' y gallai Goldberg eu chwarae iddo yn ystod ei nosweithiau digwsg.

Er gwaethaf agwedd Bach tuag at ffurf yr amrywiadau, un a deimlai oedd yn 'dasg ddiddiolch oherwydd yr harmoni sylfaenol undonog, cynhyrchodd waith hynod ddyfeisgar. Oddi mewn i'r cynllun 'dol Rwsiaidd' ffurfiol a thempled harmonig tynn mae deg ar hugain o amrywiadau'n ymagor wedi'r saraband agoriadol. Mae'r thema urddasol hon, neu aria fel mae Bach yn ei galw, yn dri deg a dau o fariau mewn hyd ac wedi'i rhannu'n rhannau un bar ar bymtheg. Yn dilyn y thema gychwynnol, rhennir y casgliad yn ddeg set o amrywiadau a drefnir yn grwpiau o dri. Mae pob grŵp yn cynnwys dawns neu ddarn cymeriad megis gigue, ffiwg neu agorawd, symudiad gwych tebyg i docata a chanon lle mae'n codi tôn bob tro y bydd yn ymddangos.

Mae'r trydydd amrywiad ar ddeg, yn hytrach na'r canon disgwyliedig, yn gadwyn o alawon - ffurf lle gall gwahanol alawon gael eu canu neu eu chwarae ar yr un pryd ac roedd hon yn un o'r hoff gemau cerddorol yng nghartref Bach. Mae'r amrywiad terfynol hwn yn gymysgedd celfydd o alawon poblogaidd wedi'u creu o frawddeg gyntaf 'Cabbages and turnips have driven me away'. Am gyfnod mae'r jôc yn gwrthbwyso'r difrifoldeb uchelfrydig cyn dychwelyd i symlrwydd yr Aria glo.

Cred y pianydd Jeremy Denk fod *Amrywiadau Goldberg* yn 'unigryw o anodd' oherwydd y croesi dwylo niferus amhosibl pan y'u chwaraeir ar y piano. Eto, cred bod yr Amrywiadau yn hyfforddiadol am eu bod yn 'wers mewn nifer o bethau, ond yn bennaf mewn rhyfeddod: y ffordd y mae'r amrywiadau trasig yn ymdoddi'n ddi-dor i'r cyffro comig, y modd y mae graddfeydd syml yn dod yn egni, llawenydd, brwdfrydedd, dathliad o elfennau sylfaenol cerddoriaeth'.

David Truslove 2021